Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ysgol Cybi
Ffordd Garreglwyd
Caergybi
Ynys Mon
LL65 1NS

15/01/2025

Annwyl Owain Roberts

**Ymweliad Interim:** Rhagfyr 2024

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Cybi yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael ag un argymhelliad o'u harolygiad craidd yn Hydref 2022. Yn ogystal, edrychwyd ar gynnydd yr ysgol wrth gyflawni gofynion un blaenoriaeth yng nghynllun gwella'r ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd 2023-2024. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hynny.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i:

- ymweld â dosbarthiadau, gan gynnwys ymweliadau ar y cyd â'r pennaeth
- siarad â disgyblion
- cyfarfod gydag athrawon ac arweinwyr
- craffu ar waith disgyblion
- craffu ar ddogfennaeth

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gynnydd yr ysgol tuag at gyflawni gofynion yr argymhelliad a'r flaenoriaeth, ac maent yn cydnabod bod ychydig o agweddau y gallent wella ymhellach.

**Ffocws yr ymweliad**

**Datblygu medrau Cymraeg y disgyblion**

- Mae ethos Cymreig cryf yn treiddio trwy holl weithgareddau'r ysgol. Mae staff yn fodelau iaith da sy'n hybu'r Gymraeg a Chymreictod yn llwyddiannus. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at ddatblygu balchder cynhenid y disgyblion at eu hiaith a'u treftadaeth.
- Mae bron bob disgybl yn cychwyn yn yr ysgol gyda'r Gymraeg yn ail iaith iddynt. Dros amser, mae'r rhan fwyaf yn datblygu i fod yn ddisgyblion dwyieithog hyderus.



Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Trwy gynllunio bwriadus, manteisir ar gyfleoedd rheolaidd i gyflwyno geirfa newydd a phatrymau iaith berthnasol i'r disgyblion. Mae cyflenwad defnyddiol a chyson o adnoddau ieithyddol ar furiau'r dosbarthiadau, ac o fewn ardaloedd darllen deniadol a threfnus, yn cynorthwyo disgyblion i gyfoethogi eu medrau Cymraeg yn llwyddiannus.
- Mae medrau darllen Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae disgyblion yn ymestyn eu medrau darllen yn bwrpasol ac yn trafod cynnwys testun yn synhwyrol.
- Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn ysgrifennu brawddegau syml yn briodol gan ddefnyddio prif lythrennau ac atalnodau llawn yn gywir. Wrth i fedrau'r disgyblion aeddfedu, mae llawer yn ysgrifennu'n gynyddol estynedig mewn ystod eang o ffurfiau gan ddangos gafael sicr ar elfennau iaith.
- Mae'r Grŵp Siarter Iaith yn ymateb yn gadarnhaol ac yn diwallu eu cyfrifoldebau gyda balchder ac aeddfedrwydd wrth gynnal sesiynau gemau buarth sy'n annog eu cyfoedion i siarad Cymraeg yn ddigymell.
- Mae arweinwyr a staff yn ymweld ac yn gweithio'n agos â staff ysgolion eraill i rannu arbenigedd a syniadau. Trwy wahodd awduron a cherddorion adnabyddus Cymru i'r ysgol, darperir profiadau creadigol niferus i ddisgyblion sy'n cefnogi datblygiad eu medrau Cymraeg yn gyson.

**Datblygu meddylfryd ac isadeiledd ysgol sy'n hunan wella**

- Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth gadarn y dirprwy, wedi sefydlu trefniadau effeithiol i fonitro a gwerthuso'r dysgu, lles a'r ddarpariaeth, sy'n cynnwys mewnbwn amserol gan athrawon ac arweinwyr dysgu o fewn timau meysydd dysgu a phrofiad pwrpasol.
- Mae'r staff cyfan yn ymrwymo'n llwyr i'r broses hunan wella, sy'n golygu eu bod yn gweithio mewn hinsawdd sy'n croesawu her i ddatblygu a gwella eu harferion yn barhaus.
- Mae'r staff a'r llywodraethwyr yn cyfrannu'n effeithiol at nifer eang o ffynonellau tystiolaeth er mwyn creu darlun clir a gonest o berfformiad yr ysgol. Golyga hyn fod arweinwyr a staff yn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella'r ysgol yn dda ac yn ymateb iddynt yn amserol.
- Mae gan arweinwyr drefniadau rheoli perfformiad pwrpasol ar gyfer yr athrawon a'r cymorthyddion dysgu sy'n seiliedig ar eu hanghenion proffesiynol unigol a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Maent yn ystyried diddordebau a dyheadau staff i sicrhau eu bod yn derbyn y datblygiad proffesiynol parhaus fwyaf addas ar eu cyfer. Mae eu sylw parhaus ar ddatblygu medrau proffesiynol pob aelod o staff yn gryfder yn yr ysgol.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn achosi unrhyw bryder.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: https://estyn.gov.wales/education-providers/ysgol-cybi

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**

Cyfarwyddwr Cynorthwyol